Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Llanbedrog
# Llanbedrog
# Pwllheli
# Gwynedd
# LL53 7NU

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 10/07/2014**

## Cyd-destun

Mae’r ysgol wedi’i lleoli yng nghanol pentref Llanbedrog sydd oddeutu tair milltir o dref Pwllheli.  Mae 77 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol gan gynnwys 16 o blant meithrin rhan-amser.  Maent wedi’u trefnu’n ddosbarth meithrin a thri dosbarth oed cymysg.

Mae oddeutu chwarter o’r disgyblion o gartrefi lle y siaredir Cymraeg fel iaith gyntaf. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir lleiafrifol ethnig.  Mae gan 30% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy’n llawer uwch na’r ganran genedlaethol.  Nid oes yr un disgybl â datganiad statudol o anghenion addysgol arbennig.  Mae 10% o’r disgyblion â’r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim, sydd yn llawer is na’r ffigwr cenedlaethol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Llanbedrog yn 2013-2014 yw £3,529.  Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £10,616 a'r lleiafswm yw £2,936.  Mae Ysgol Llanbedrog yn safle 75 o'r 103 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Penodwyd y pennaeth i’w swydd ym Medi 2013.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf gan Estyn yn ystod Ebrill 2008.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yn dda oherwydd bod:

- safonau llythrennedd a rhifedd disgyblion o bob oedran yn dda;
- y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymdrechu'n galed ac yn gwneud cynnydd addas yn eu dysgu;
- medrau cymdeithasol a medrau bywyd bron pob disgybl yn dda gyda bron pob un yn ymddwyn yn gyfrifol;
- profiadau dysgu ysgol yn cyfarfod ag anghenion yr ystod lawn o ddisgyblion yn llwyddiannus;
- addysgu ac asesu o ansawdd da ac yn cymell disgyblion i wneud eu gorau;
- yr ysgol yn gymuned ofalgar lle mae blaenoriaeth uchel i les disgyblion; a bod
- yr ysgol yn gymuned gynhwysol sy'n sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'n dda oherwydd bod:

- y pennaeth, mewn byr amser, wedi darparu gweledigaeth strategol glir i ddatblygu'r ysgol;
- yr ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth gyflwyno mentrau newydd;
- trefniadau effeithiol ar gyfer adnabod cryfderau'r ysgol a'r mannau sydd angen gwelliant;
- ystod o bartneriaethau yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a darpariaeth;
- parodrwydd staff i roi cynnig ar fentrau newydd a dulliau gwahanol o weithio; a bod
- yr ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Argymhellion

A1 Cynyddu'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefelau uwch mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ar ddiwedd cyfnod allweddol 2

A2 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd mewn gwahanol gyd-destunau

A3 Cynyddu gallu'r disgyblion i arfarnu a gwella'u gwaith

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae medrau llythrennedd disgyblion o bob oedran yn dda. Mae bron pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn gwrando'n astud yn ystod sesiynau torfol ac yn mynegi eu syniadau'n hyderus a chywir. Mae ganddynt ddiddordeb mewn llyfrau gyda'r rhan fwyaf yn dewis llyfrau'n annibynnol ac yn defnyddio ystod eang o ffyrdd i'w galluogi i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd y Cyfnod, mae bron pob un yn ysgrifennu mewn modd dealladwy ac yn defnyddio geiriau, ymadroddion a brawddegau yn effeithiol i gyfathrebu eu syniadau.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn gwrando'n astud yn ystod gwersi ac yn cyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau grŵp a dosbarth. Mae'r rhan fwyaf yn ddarllenwyr hyderus yn y Gymraeg a Saesneg ac, erbyn diwedd y cyfnod allweddol, yn cywain gwybodaeth yn drefnus o wahanol ffynonellau, megis llyfrau a gwefannau. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n fedrus ar draws y cwricwlwm ac yn arddangos rhuglder a chywirdeb cynyddol yn eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf yn cynhyrchu llawysgrifen sy'n llifo ac yn ddarllenadwy.

Mae medrau rhifedd disgyblion ar draws yr ysgol yn dda. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob disgybl yn defnyddio'r ieithwedd fathemategol gywir wrth siarad am eu syniadau ac yn hyderus iawn wrth ddarllen ac ysgrifennu rhifau dau ddigid. Maent yn defnyddio unedau safonol gyda manwl gywirdeb cynyddol i fesur gwrthrychau o wahanol feintiau ac mae eu gallu i drosglwyddo eu medrau mathemategol i weithgareddau chwarae yn datblygu'n dda. Enghraifft dda o hyn yw gallu disgyblion hynaf y Cyfnod Sylfaen i ddefnyddio mesurau safonol wrth iddynt greu blanced.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i drosglwyddo eu medrau mathemategol i amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd pob dydd, yn dda. Mae ganddynt afael sicr ar rif a mesur a dônt yn fwyfwy hyderus wrth ddefnyddio cyfrifiadau pen. Mae medrau trin data'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda ac, erbyn Blwyddyn 6, mae bron pob un yn fedrus iawn wrth ddefnyddio meddalwedd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gasglu, dehongli a chyflwyno data.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ystod oedran yn ymdrechu'n galed mewn gwersi ac yn gwneud cynnydd addas yn eu dysgu. Maent yn canolbwyntio ac yn dyfalbarhau ar dasgau, maent yn effro i holi ac ateb cwestiynau ac yn trafod eu tasgau yn hyderus. Mae'r defnydd dychmygus a wneir o 'hetiau meddwl' yng nghyfnod allweddol 2 yn hyrwyddo medrau meddwl y disgyblion yn effeithiol iawn ac yn eu galluogi i fynegi eu syniadau a'u meddylfryd mewn ffordd gryno. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu a'r safonau maent yn eu cyflawni. Fodd bynnag, dim ond ychydig o ddisgyblion sydd, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn gallu arfarnu eu gwaith ac adnabod yr hyn sydd angen ei wneud i'w wella.

O gymharu ag ysgolion eraill sydd â chyfran debyg o ddisgyblion â hawl i ginio am ddim, roedd perfformiad yr ysgol yn y Cyfnod Sylfaen yn 2012 a 2013 yn y 50% is mewn llythrennedd ac yn y 25% isaf mewn datblygiad mathemategol. Roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd ar y deilliant uwch gan amlaf yn y 25% uchaf yn y ddau faes.

O gymharu ag ysgolion eraill sydd â chyfran debyg o ddisgyblion â hawl i ginio am ddim, mae perfformiad cyfnod allweddol 2 ar lefel 4 wedi amrywio'n sylweddol o'r naill flwyddyn i'r llall. Fodd bynnag, yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, bu perfformiad yn y 25% uchaf yn y pedwar pwnc.

Mae perfformiad ar y lefelau uwch mewn Saesneg a mathemateg yn ystod dwy o'r pum mlynedd diwethaf wedi bod yn y 50% uwch o ysgolion tebyg. Ar ddau achlysur, bu'r perfformiad yn y 25% uchaf o ysgolion. Ac eithrio yn 2010, pan oedd Cymraeg yn y 50% uwch, ac yn 2011 pan oedd gwyddoniaeth hefyd yn y 50% uwch, mae perfformiad yn y ddau bwnc, gan amlaf, wedi bod yn y 50% is o ysgolion tebyg. Roedd perfformiad mathemateg a gwyddoniaeth yn 2013 yn y 25% isaf o ysgolion.

Nid oedd unrhyw dueddiad cyson o wahaniaethau mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched o un flwyddyn i'r llall. Mae disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â gweddill y garfan.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus y byddai staff yn delio'n effeithiol ag unrhyw fygythiadau i'w hiechyd a'u lles. Mae gan ddisgyblion o bob oedran ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n iach ac maent yn gwerthfawrogi bod bwydydd iach ac ymarfer corfforol rheolaidd yn cael effaith lesol ar eu hiechyd a'u datblygiad.

Mae medrau cymdeithasol a medrau bywyd bron pob disgybl yn dda. Wrth iddynt gydweithio ar dasgau neu symud o gwmpas yr ysgol, maent yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd a thuag at ymwelwyr. Maent yn ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig sy'n cydweithio'n gytûn ac yn cadw'n ddygn ar dasg dros gyfnodau estynedig.

O oedran cynnar, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn hyderus iawn wrth wneud dewisiadau ynghylch eu dysgu ac yn mynd i'r afael â thasgau datrys problemau yn fedrus. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn arwain eu dysgu eu hunain wrth iddynt ddewis pa weithgareddau maent am eu dilyn.

Mae gan yr holl ddisgyblion ymglymiad cryf i'r ysgol a'r staff, ac wrth iddynt aeddfedu maent yn fodlon ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol. Mae'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn cyflawni eu gwaith yn gydwybodol ac yn llais dylanwadol yn yr ysgol. Mae disgyblion ym mhob dosbarth yn cyfrannu eu syniadau i gynnwys thema gyfredol eu dosbarth.

Mae'r arfer o gymryd rhan mewn cyngherddau a chwaraeon yn y pentref, yn cryfhau ymglymiad disgyblion i'w cymuned leol yn sylweddol.

Mae presenoldeb yr ysgol wedi codi yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. O gymharu ag ysgolion tebyg ar sail cinio am ddim, mae'r ysgol wedi bod yn y 50% uwch yn ystod y tair blynedd diwethaf.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amrediad eang o brofiadau dysgu symbylus sydd yn cyfarfod ag anghenion yr ystod lawn o ddisgyblion yn llwyddiannus. Mae cynllunio yn y Cyfnod Sylfaen wedi'i seilio'n gadarn ar y chwe maes dysgu ac ar roi rôl weithredol i ddisgyblion yn eu dysgu. Mae'r cwricwlwm ar ddechrau cyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth a dealltwriaeth bresennol disgyblion ac yn sicrhau bod dilyniant a pharhad yn eu dysgu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer sicrhau bod disgyblion o bob oedran yn caffael medrau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol. Mae'r ysgol yn ddiweddar wedi dechrau ymgorffori gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn ei chynlluniau tymhorol ac wythnosol. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn gyson trwy'r ysgol.

Mae darpariaeth gynhwysfawr ar gyfer datblygu'r Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig. Mae'r Gymraeg yn weladwy iawn yn amgylchedd yr ysgol ac mae pwyslais cryf yn y cwricwlwm ar hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o nodweddion diwylliannol, amgylcheddol a hanesyddol Cymru.

Mae'r ystod eang o brofiadau ychwanegol, sy'n cynnwys ymweliadau addysgol a'r cyfleoedd i ymuno â gweithgareddau'r gymuned, yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn sylweddol.

Mae aelodau'r cyngor ysgol, pwyllgorau eco ac ysgol iach yn gweithredu'n effeithiol ac maent yn cywain barn eu cyd-ddisgyblion yn rheolaidd am yr agweddau hyn. Mae gwersi, ymweliadau addysgol ac arferion ailgylchu'r ysgol yn cyfrannu'n arwyddocaol at gynyddu dealltwriaeth o ddatblygiad cynaliadwy a'i werthoedd, a'u rôl fel dinasyddion byd-eang.

**Addysgu: Da**

Mae'r berthynas waith glòs sydd rhwng oedolion a disgyblion yn arwain at addysgu a dysgu effeithiol. Mae'r holl athrawon yn hyddysg yn eu gwaith ac maent yn cynllunio profiadau dysgu ysgogol sy'n ennyn diddordeb bron pob disgybl. Mae ymyrraeth bwrpasol a holi medrus athrawon a chymorthyddion yn sicrhau bod disgyblion o bob oedran a gallu yn cael eu hannog i ymdrechu'n galed a chymryd rhan weithredol yn eu dysgu. Mae'r ystod eang o ddulliau addysgu, er enghraifft, gwaith grŵp, pâr neu unigol, yn llwyddo'n dda i sicrhau ymglymiad bron pob unigolyn i'w ddysgu.

Mae'r pwyslais cryf a roddir yn y Cyfnod Sylfaen ar annog disgyblion i wneud dewisiadau ac i arwain eu dysgu, yn cyfrannu'n gryf tuag at eu datblygiad yn ddysgwyr annibynnol.

Mae'r trefniadau asesu a chofnodi a sefydlwyd yn ddiweddar yn galluogi athrawon ym mhob dosbarth i fonitro ac olrhain cynnydd pob disgybl yn fanwl ac i ymyrryd yn briodol yn ôl yr angen. Mae'r arfer o gynnwys y disgyblion eu hunain yn y broses asesu a phennu targedau ar gyfer gwelliant, yn nodwedd gref sy'n cael effaith arwyddocaol ar gynnydd a dysgu disgyblion. Ar draws yr ysgol, mae gwybodaeth asesu yn cael ei defnyddio'n bwrpasol gan athrawon ar gyfer nodi'r camau nesaf mewn dysgu. Mae safon adborth llafar ac ysgrifenedig y staff ar waith ac ymdrechion disgyblion yn gyson dda ac yn egluro'n glir i i unigolion sut i wella.

Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol iddynt am ddatblygiad a chynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar lle mae blaenoriaeth uchel i les disgyblion. Mae'r staff yn gwneud yn siŵr bod yr amgylchedd yn gynnes a chroesawgar a bod anghenion pob unigolyn yn cael eu diwallu. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed iach. Mae'r amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol rheolaidd yn cynnig profiadau gwerthfawr i hybu lles a ffitrwydd yr holl ddisgyblion.

Mae datblygiad personol, ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion wedi ei ymgorffori'n gadarn yn y cwricwlwm a gweithdrefnau dydd-i-ddydd yr ysgol. Mae'r cyfleoedd rheolaidd gaiff disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad eu medrau cymdeithasol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd uchel sy'n helpu'r disgyblion i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir ac yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb dros eu gweithrediadau. Mae'r sesiynau cydaddoli ysgogol yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad ysbrydol a phersonol disgyblion.

Mae'r defnydd effeithiol a wna'r ysgol o arbenigeddau amrediad o asiantaethau ac elusennau eraill yn galluogi i gefnogi lles a dysgu disgyblion yn llwyddiannus.

Mae trefniadau trylwyr ac effeithiol ar gyfer adnabod a chefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, gyda'r cydlynydd dynodedig yn rhoi arweiniad clir i athrawon a llywodraethwyr yr ysgol. Trwy ymyrraeth gynnar a chynllunio gofalus, mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth dda i ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol gyda'u gwaith. Mae hyn yn galluogi bron pob disgybl i wneud cynnydd da ac i ymdopi'n llwyddiannus â gofynion y cwricwlwm.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol, ofalgar a hapus sydd yn dathlu amrywiaeth ac yn gwerthfawrogi pob dysgwr. Mae'n sicrhau cyfle cyfartal ar gyfer pob disgybl. Mae ganddi amgylchedd dysgu positif sy'n cyfrannu'n dda at gefnogi dysgu ac addysgu.

Mae ystod eang o offer ac adnoddau addas yn yr ystafelloedd dysgu sy'n cael eu defnyddio'n bwrpasol gan athrawon i hyrwyddo a chyfoethogi profiadau dysgu

disgyblion. Mae'r adeilad yn bodloni holl ofynion y dysgwyr. Mae amrywiaeth o arddangosfeydd trwy'r ysgol sy'n cyfrannu'n arwyddocaol at ethos yr ysgol ac yn ysgogi'r plant. Mae digon o le yn yr ystafelloedd ac mae'r adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r buarth o faint addas ac mae gan yr ysgol fynediad i gae chwarae. Mae ardal y tu allan i'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei defnyddio'n ddychmygus i ddarparu amgylchedd dysgu diddorol a chyffrous.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth, mewn byr amser, wedi darparu gweledigaeth strategol glir sy'n ymateb yn systematig i flaenoriaethau ac anghenion datblygu'r ysgol. Mae wedi llwyddo i rannu ei weledigaeth yn effeithiol gyda staff a llywodraethwyr ac mae hyn wedi arwain at safonau a chynnydd da yn neilliannau a lles disgyblion. O ganlyniad, mae ymrwymiad cryf ar draws yr ysgol i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau sy'n cryfhau'r ddarpariaeth ac yn gwella safonau.

Mae'r systemau cyfathrebu yn effeithiol ac mae'r rhain yn cyfrannu'n dda tuag at greu ysgol sy'n hunanfeirniadol ac yn datblygu'n barhaus. Mae'r staff yn cefnogi'r pennaeth yn dda ac yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn cydweithio'n agos gyda'i gilydd i greu ethos cartrefol ar gyfer disgyblion. Trwy gyfarfodydd rheolaidd, cânt gyfleoedd gwerthfawr i drafod cynnydd ac i fonitro gweithrediad ac effaith cynlluniau datblygu'r ysgol.

Mae strategaethau manwl sydd wedi'u sefydlu ar gyfer dadansoddi data perfformiad yr ysgol wedi arwain at wella agweddau penodol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles y disgyblion.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da wrth gyflwyno mentrau a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae gweithredu dulliau asesu ar gyfer dysgu ynghyd â mabwysiadu'r strategaethau llythrennedd a rhifedd eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a chyflawniad disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn rhoi cefnogaeth gref i'r ysgol ac mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gynyddol o safonau a chyflawniadau'r disgyblion. Maent yn adnabod cryfderau'r ysgol a'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu ymhellach, yn dda. Mae gan y llywodraethwyr drefn glir o wirio effeithiolrwydd y ddarpariaeth. Maent yn barod i herio'r ysgol i ysgogi gwelliannau penodol. Mae'r llywodraethwyr yn deall ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol yn gydwybodol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol drefn effeithiol o adnabod ei chryfderau ynghyd â mannau sydd angen gwelliant. Mae hyn yn cynnwys casglu a dadansoddi ystod eang o dystiolaeth unionyrchol a chasglu barn llywodraethwyr, rhieni a disgyblion. Yn ogystal, rhoddir ystyriaeth lawn i'w sylwadau ac i adroddiadau ffurfiol, megis barn yr awdurdod lleol.

Mae’r adroddiadau monitro pynciau yn adnabod deilliannau’r disgyblion a chryfderau'r addysgu yn dda ac yn nodi’n glir y mannau ar gyfer gwelliant. Yn ogystal, caiff data perfformiad ei ddefnyddio’n fwriadus i fonitro cynnydd ac i gynllunio ar gyfer gwella.

Mae cyswllt clir rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau’r cynllun datblygu ysgol. Mae’r cynllun, sy’n cynnwys amserlen weithredu briodol ynghyd ag amserlen, cyfrifoldebau staff a chostau, yn canolbwyntio’n glir ar wella safonau a darpariaeth. Mae’r sylw a roddir yn y cynllun ar arfarnu effaith y blaenoriaethau blaenorol yn cydnabod llwyddiannau ac yn aml yn arwain at adnabod targedau newydd ar gyfer agweddau sydd angen sylw

Mae adroddiad hunanarfarnu’r ysgol yn adlewyrchu’n gywir y mwyafrif o’r cryfderau a’r meysydd i’w datblygu. Er yn ailadroddus mewn mannau, gan mwyaf, mae’n offeryn effeithiol ar gyfer datblygu’r ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r cydweithio cynhyrchiol sydd rhwng yr ysgol ac ystod eang o bartneriaid yn cael effaith gadarnhaol ar safonau'r disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth. Mae’r rhieni yn cefnogi’r ysgol yn dda a thrwy eu gwaith fel gwirfoddolwyr darllen, yn cyfrannu’n arwyddocaol tuag at gynnydd disgyblion. Mae effaith cefnogaeth y rhieni hefyd i’w weld yn y cynnydd o adnoddau technoleg gwybodaeth sydd yn cyfrannu’n dda at wella safonau yn y maes.

Mae’r cydweithio agos sydd gydag ysgolion cynradd ac uwchradd yr ardal wedi galluogi’r pennaeth i fynd i’r afael â blaenoriaethau datblygiadau megis asesu ar gyfer dysgu a chymedroli asesiadau athrawon, yn fwy effeithiol.

Mae cysylltiadau gweithredol gyda’r gymuned a sefydliadau lleol a chyda mudiadau cenedlaethol. Mae'r rhain yn dylanwadu’n gadarnhaol ar ansawdd profiadau disgyblion ac yn cynyddu eu hymwybyddiaeth o hanes lleol ac agweddau ar ddatblygiad cynaliadwy o fewn eu cymuned. Caiff gwaith celf y disgyblion ei arddangos yn lleol, ac mae gweithdai cerddorol gŵyl gerdd yn ymestyn galluoedd creadigol y disgyblion yn dda.

Mae trefniadau trosglwyddo i’r ysgol uwchradd yn effeithiol ac yn paratoi'r disgyblion yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o’i holl staff er mwyn cyflwyno cwricwlwm yr ysgol ac ymateb i anghenion y disgyblion. Mae’r trefniadau manwl ar gyfer rheoli perfformiad athrawon yn arwain at bennu targedau sy’n gysylltiedig â blaenoriaethau’r ysgol a datblygiad proffesiynol y staff. Mae hyn yn cael dylanwad cadarnhaol ar ansawdd yr addysgu a’r dysgu.

Mae trefniadau addas ar gyfer neilltuo amser i athrawon gynllunio, paratoi ac asesu.

Mae'r staff wedi elwa o waith rhwydweithio proffesiynol o fewn yr ysgol a chydag ysgolion eraill cyfagos.  Maent yn arsylwi ar arferion addysgu da ei gilydd ac, yn sgil hynny, yn arfarnu ansawdd y ddarpariaeth.  Byddant yn safoni gwaith disgyblion yn rheolaidd er mwyn cael darlun cliriach o safonau ar draws yr ysgol.

Gyda chefnogaeth swyddog yr awdurdod lleol a'r corff llywodraethol, mae'r pennaeth yn rheoli'r defnydd o adnoddau ariannol yn ofalus i gefnogi blaenoriaethau'r ysgol. Gwna'r ysgol hefyd ddefnydd da o gyllid drwy grantiau i leihau effaith tlodi ac amddifadedd ar ddisgyblion a'u teuluoedd.  Mae hyn yn arwain at godi brwdfrydedd a deilliannau'r disgyblion mewn nifer o weithgareddau.

Mae gwariant cyllideb yr ysgol yn cael ei fonitro'n rheolaidd ac yn ofalus gan y corff llywodraethol er mwyn sicrhau gwerth am arian.

O ystyried y deilliannau da ac ansawdd uchel y ddarpariaeth, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Roedd cyfran y disgyblion a gyrhaeddodd y deilliant 5 disgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2013 mewn llythrennedd a datblygiad personol yn debyg i gyfartaledd ysgolion y teulu a'r cyfartaleddau cenedlaethol. Roedd perfformiad mewn datblygiad mathemategol ychydig yn is na'r teulu a Chymru gyfan.

Roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd ar y deilliant 6 yn 2013 yn debyg i gyfartaleddau ysgolion y teulu a'r cyfartaleddau cenedlaethol mewn llythrennedd ac yn llawer uwch mewn mathemateg a datblygiad personol a chymdeithasol. Roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd ddangosydd y Cyfnod Sylfaen, sef deilliant 5 neu uwch yn y ddau faes dysgu, yn debyg i berfformiad y teulu a Chymru gyfan.

O gymharu ag ysgolion eraill sydd â chyfran debyg o ddisgyblion â hawl i ginio am ddim, roedd perfformiad yr ysgol yn y Cyfnod Sylfaen yn 2012 yn y 50% is mewn llythrennedd ac yn y 25% isaf mewn datblygiad mathemategol. Roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd ar y deilliant uwch yn y 50% is mewn llythrennedd ac yn y 25% uchaf mewn datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol.

Yn 2013, roedd perfformiad yr ysgol mewn datblygiad personol a chymdeithasol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg tra bod perfformiad llythrennedd yn y 50% is a pherfformiad datblygiad mathemategol yn y 25% isaf. Roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd ar y deilliant uwch yn y 25% uchaf o ysgolion sydd â chyfran debyg o ddisgyblion â hawl i ginio am ddim yn y tri maes.

Llwyddodd pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 i gyrraedd y lefel 4 ddisgwyliedig mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn 2013. Gyda dros hanner y fintai yn cyrraedd lefel 5 mewn Saesneg, roedd perfformiad yr ysgol yn rhagori'n sylweddol ar berfformiad ysgolion y teulu a chanlyniadau Cymru gyfan. Roedd perfformiad ar lefel 5 yn y pynciau eraill yn llawer is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru gyfan.

O gymharu ag ysgolion eraill sydd â chyfran debyg o ddisgyblion â hawl i ginio am ddim, mae perfformiad cyfnod allweddol 2 ar lefel 4 wedi amrywio'n sylweddol o'r naill flwyddyn i'r llall. Fodd bynnag, yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, bu perfformiad yn y 25% uchaf yn y pedwar pwnc.

Mae perfformiad ar lefel 5 mewn Saesneg a mathemateg yn ystod tair o'r pum mlynedd diwethaf wedi bod yn y 50% uwch o ysgolion tebyg. Ar ddau achlysur, bu'r perfformiad yn y 25% uchaf o ysgolion yn y ddau bwnc. Ac eithrio yn 2010, pan roedd Cymraeg yn y 50% uwch, ac yn 2011 pan roedd gwyddoniaeth hefyd yn y 50% uwch, mae perfformiad yn y ddau bwnc, gan amlaf, wedi bod yn y 50% is o ysgolion tebyg. Roedd perfformiad mathemateg a gwyddoniaeth yn 2013 yn y 25% isaf o ysgolion.

Nid oes unrhyw dueddiad cyson o wahaniaethau mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched o un flwyddyn i'r llall.  Mae disgyblion sydd â’r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â gweddill y garfan.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 35 | 35<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 35 | 35<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 35 | 34<br>97%<br>97% | 1<br>3%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 35 | 35<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 35 | 35<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 35 | 35<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 35 | 34<br>97%<br>99% | 1<br>3%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 35 | 35<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 35 | 31<br>89%<br>91% | 4<br>11%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 35 | 33<br>94%<br>95% | 2<br>6%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 35 | 22<br>63%<br>77% | 13<br>37%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time. | 35 | 27<br>77%<br>84% | 8<br>23%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

# Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 21 | 13 | 7 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 62% | 33% | 5% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 21 | 14 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 20 | 15 | 4 | 0 | 0 | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 75% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 20 | 10 | 10 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 50% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 21 | 5 | 15 | 0 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 24% | 71% | 0% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 21 | 11 | 9 | 0 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 52% | 43% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 21 | 14 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 21 | 12 | 6 | 0 | 0 | 3 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 57% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 21 | 12 | 6 | 1 | 0 | 2 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 57% | 29% | 5% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 21 | 16 | 5 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 21 | 14 | 6 | 0 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 67% | 29% | 0% | 5% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 20 | 11 | 5 | 2 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 55% | 25% | 10% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 21 | 9<br>43% | 11<br>52% | 1<br>5% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 21 | 12<br>57% | 7<br>33% | 1<br>5% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 21 | 10<br>48% | 7<br>33% | 2<br>10% | 0<br>0% | 2 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 20 | 10<br>50% | 9<br>45% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 18 | 6<br>33% | 5<br>28% | 1<br>6% | 0<br>0% | 6 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 21 | 13<br>62% | 6<br>29% | 0<br>0% | 1<br>5% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 21 | 12<br>57% | 8<br>38% | 1<br>5% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 60% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| William Williams | Arolygydd Cofnodol |
| Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| David Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Tristan Roberts | Arolygydd Cymheiriaid |
| Manon Haf Owen | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.